



Coleg Rhyngwladol Bangor

Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol

Mai 2018

Yr adolygiad hwn

Mae hwn yn adroddiad adolygiad o dan y dull Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol (GATE) a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yng Ngholeg Rhyngwladol Bangor. Cynhaliwyd yr adolygiad ar 25 Mai 2018 a chafodd ei weithredu gan dîm o adolygwyr, sef:

- Mrs Catherine Fairhurst
- Yr Athro Graham Romp.

Prif bwrpas yr adolygiad oedd:

- rhoi beirniadaeth am y ffordd y mae'r darparwr yn rheoli ei gyfrifoldebau am safonau academaidd, fel y maent wedi'u nodi yn ei drefniadau cytundebol gyda'i bartner academaidd
- rhoi beirniadaeth am y ffordd y mae'r darparwr yn rheoli ac yn gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu
- rhoi beirniadaeth am ddibynadwyedd yr wybodaeth y mae'r darparwr yn ei chynhyrchu i'w gynulleidfaedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig
- nodi unrhyw nodweddion o arfer da a ganfuwyd
- gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 2. Mae'r cyd-destun y dylid dehongli'r canfyddiadau hyn ynddo wedi'i esbonio ar dudalen 3. Rhoddwyd esboniadau o'r canfyddiadau mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 4.

Mae gwefan QAA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am QAA](http://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni) a'i chenhadaeth.¹ Mae rhagor o wybodaeth am y dull adolygu hwn yn y Llawlyfr i ddarparwyr.

¹ www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

Y canfyddiadau allweddol

Bu panel QAA yn ystyried tystiolaeth yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysgol yng Ngholeg Rhyngwladol Bangor ('y Coleg'), sef gwybodaeth a ddarparwyd o flaen llaw a thystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliad adolygu. Mae'r adran hon yn nodi'r canfyddiadau allweddol a gafwyd o ganlyniad i'r adolygiad.

Y beirniadaethau

Rhoddodd panel QAA y beirniadaethau canlynol am Goleg Rhyngwladol Bangor.

- Mae modd rhoi **hyder** yn y ffordd y mae Coleg Rhyngwladol Bangor yn rheoli ei gyfrifoldebau am safonau academaidd, fel sydd wedi'u nodi yn ei drefniadau cytundebol gyda'i bartner academaidd.
- Mae modd rhoi **hyder** yn y ffordd y mae Coleg Rhyngwladol Bangor yn rheoli ac yn gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu.
- Mae modd **dibyynu** ar yr wybodaeth y mae Coleg Rhyngwladol Bangor yn ei chynhyrchu i'w gynulleidfaoedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig.

Y nodweddion o arfer da

Ni chanfu panel QAA unrhyw nodweddion o arfer da.

Yr argymhellion

Mae panel QAA yn gwneud yr argymhellion canlynol i Goleg Rhyngwladol Bangor.

Byddai'n **fuddiol** i'r darparwr:

- drafod gyda'r Brifysgol yr angen am nodi lefel y rhaglen yn glir ar y trawsgrifiad a gyflwynir i'r myfyrwyr
- geisio eglurhad gan y Brifysgol, ac esbonio'n glir i'r myfyrwyr, beth yw'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r graddau integredig.

Ynghylch Coleg Rhyngwladol Bangor

Sefydlwyd Coleg Rhyngwladol Bangor ('y Coleg') yn 2016 fel partneriaeth rhwng Grŵp Addysg Rhyngwladol Rhydychen [Oxford International Education Group] ('y Grŵp') a Phrifysgol Bangor ('y Brifysgol'). Sefydlwyd y bartneriaeth i gynyddu nifer ac amrywiaeth y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yn y Brifysgol.

Mae'r Grŵp yn gwmni addysg breifat sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Prydeinig ac sy'n cynnal ysgolion, colegau a chanolfannau i fyfyrwyr rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig a Gogledd America.

Mae Cytundeb Cydweithio'n amlinellu cyfrifoldebau bob parti. Yn y pendraw, y Brifysgol sy'n gyfrifol am safonau academiaidd y dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth sy'n arwain atynt. Mae'r Brifysgol yn darparu manau addysgu a gweinyddu. Mae'n caniatáu i fyfyrwyr y Coleg ddefnyddio'r un adnoddau dysgu, cymorth lles, cymorth TG a chyfleusterau TG â'r holl fyfyrwyr eraill sydd wedi'u cofrestru gyda'r Brifysgol. Mae Cydlynnydd y Brifysgol ynghyd â Thiworiaid Cyswllt.

Mae'r Coleg yn gyfrifol am reoli a darparu rhaglenni a ddilysir gan y Brifysgol. Mae'r Coleg yn glynw at brosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd a ddisgrifiwyd yn fanwl yn y Llawlyfr Gweithredu a Sicrhau Ansawdd. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am farchnata a recriwtio myfyrwyr i'w raglenni. Y Brifysgol yn y pendraw sy'n penderfynu a ddylid derbyn myfyrwyr ac sy'n rhoi'r Llythyrau Cadarnhau Derbyn i Astudio (CDA).

Mae'r 3.5 o staff addysgu llawn amser a'r 17 o staff addysgu rhan amser/sesiynol o fewn y Coleg wedi'u cyflogi gan y Grŵp, maent wedi'u cymeradwyo gan y Brifysgol a chânt ddefnyddio ei hadnoddau hithau.

Mae'r Coleg yn darparu:

- cam 'International Foundation Year Zero' (IYZ, ar Lefel 3 FfCChC) o ystod o raglenni gradd baglor pedair blynedd
- cam 'International Year One' o raglenni gradd baglor (IY1, ar Lefel 4 FfCChC)
- cam paratoadol o raglen 'International Incorporated Masters' (IIM, ar Lefel 6 FfCChC)
- cwrs Saesneg cyn-sesiynol o 6 neu 12 wythnos i fyfyrwyr y mae lefel eu hiaith Saesneg yn is na lefel 5.5 IELTS.

Pan gafwyd yr ymweliad, roedd cyfanswm o 42 o fyfyrwyr yn y Coleg.

Mae ansawdd a safonau'r profiad dysgu'n cael eu monitro drwy drefnau llywodraethu'r Brifysgol. Mae arholwyr allanol yn darparu pwynt cyfeirio allanol ar gyfer monitro ansawdd a safonau.

Yn rhan o broses ddilysu'r Brifysgol, defnyddiwyd yr adrannau perthnasol yn *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) fel pwyntiau cyfeirio allanol ar gyfer y rhaglenni IYZ, IY1 ac IIM.

Ni chafwyd unrhyw adolygiadau GATE o'r blaen, ond gwnaeth y Brifysgol Archwiliad Ansawdd Mewnol ym mis Rhagfyr 2017 a chafwyd nifer o argymhellion o ganlyniad i hwn.

Y canfyddiadau manwl am Goleg Rhyngwladol Bangor

1 Y safonau academiaidd

Pa mor effeithiol yw defnydd y darparwr o bwyntiau cyfeirio allanol i reoli safonau academiaidd?

1.1 Mae gan y Coleg brosesau effeithiol ar gyfer cynnal a chadw safonau academiaidd, o dan oruchwyliaeth y Grŵp a'r Brifysgol. Mae gan y Brifysgol y cyfrifoldeb pennaf am sicrhau safonau academiaidd ac ansawdd ei dyfarniadau. Y Cyd-Fwrdd Rheoli sy'n goruchwyllo safonau academiaidd. Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli'n adrodd i Fwrdd Llywio'r Grŵp/Brifysgol sydd wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu) a'r Bwrdd yma, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am bob agwedd o'r cydweithrediad. Goruchwylir y Coleg gan Is-grŵp Darpariaeth Gydweithredol y Brifysgol ar ran ei Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu. Mae gan y Grŵp Bwyllgor Ansawdd ar gyfer y Colegau Mewnosededig ac mae pob un o'r Cyfarwyddwyr Coleg yn aelodau ohono. Mae Cyfarwyddwr Coleg Rhyngwladol Bangor yn adrodd yn rheolaidd i Gyfarwyddwr Datblygu Academiaidd y Grŵp.

1.2 Mae Cyfarwyddwr y Coleg a Chydlynnydd y Brifysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gweithredoedd arferol y Coleg ac unrhyw broblemau neu bryderon a allai godi.

1.3 Mae tiwtoriaid cyswllt y Brifysgol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer addasu rhaglenni a modiwlau, a'u monitro a'u hadolygu'n flynyddol. Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli wedi adolygu rôl y Tiwtor Cyswllt yn ddiweddar ac mae'r Brifysgol wedi penodi Arweinydd Academiaidd sy'n gyfrifol am wella'r bartneriaeth.

1.4 Mae'r Coleg yn llunio adroddiad hunanwerthuso Adolygiad Blynyddol o'r Addysgu a chynllun datblygu a gwella ansawdd sy'n cynnwys adborth gan y myfyrwyr, y staff a'r arholwyr allanol. Yn dilyn ystyriaeth gan y Cyd-Fwrdd Rheoli daw'r cynllun yn rhan o broses fonitro flynyddol y Brifysgol. Mae Cyfarwyddwr y Coleg yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu sydd yn y cynlluniau datblygu a gwella ansawdd yn cael eu gweithredu o fewn y cylch adolygu. Gwneir adolygiadau cyfnodol o raglenni a ddarperir yn y Coleg hefyd o fewn cylch pum mlynedd safonol y Brifysgol.

1.5 Felly, mae'r Brifysgol yn darparu'r fframwaith sicrhau ansawdd y mae'r Coleg yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn darparu rhaglenni a gymeradwyr gan y Brifysgol oddi mewn iddo, ac mae hwn yn gwarantu bod safonau academiaidd trothwy'n cael eu gosod ar y cychwyn ac yn cael eu cynnal dros amser.

Pa mor effeithiol yw defnydd y darparwr o bwyntiau cyfeirio allanol i reoli safonau academiaidd?

1.6 Mae'r Coleg yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol yn effeithiol wrth reoli safonau academiaidd drwy weithredu gweithdrefnau'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn profi'r prosesau hyn yn fewnol drwy brosesau cymeradwyo ac adolygu, ac yn allanol drwy aseswyr ac arholwyr allanol.

1.7 Mae'r Coleg yn mapio'r rhaglen 'International Year One' (IY1) i flwyddyn gyntaf gyffredin rhaglenni israddedig y Brifysgol. Yn gyffredinol, mae'r Coleg yn cadw at reoliadau academiaidd y Brifysgol ar gyfer rhaglenni a addysgir. Ond, nid yw Rheoliadau Prifysgol Bangor ar gyfer Rhaglenni a Addysgir yn esbonio'r graddau baglor neu raddau meistr Integredig Rhyngwladol nac yn darparu rheoliadau ar gyfer asesu modiwlau Lefel 3. Er mwyn sicrhau'r safonau academiaidd yn llawn, byddai'n fuddiol i'r Coleg geisio eglurhad gan y Brifysgol, ac esbonio'n glir i'r myfyrwyr, beth yw'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r graddau integredig.

1.8 Mae trefnau cymeradwyo ffurfiol y Brifysgol yn sicrhau bod y canlynol yn derbyn cydnabyddiaeth: *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC), y *Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig* (RQF), disgrifwyr pwnc AQA ar gyfer canlyniadau ar Lefel Uwch (Lefel 3), Datganiadau Meincnodi Pwnc QAA, *Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop* (CEFR) ar B2 ar gyfer modiwlau yn yr ieithoedd, a disgrifwyr y System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS) ar gyfer Bandiau 5 a 6. Mae'r rhain wedi'u hadlewyrchu ymhellach mewn llawlyfrau a chanllawiau modiwlau, sy'n cynnwys dolenni at bwyntiau cyfeirio allweddol. Mae manylebau'r rhaglenni'n eglur ac yn fanwl. Mae panelau dilysu a chymeradwyo'r Brifysgol yn cynnwys aelod allanol ac mae arholwyr allanol yn bwyntiau cyfeirio effeithiol ar gyfer asesiad a sylwadau ar gydymffurfiaid â phwyntiau cyfeirio allanol. Mae'r Grŵp wedi'i achredu gan y Cyngor Prydeinig sy'n darparu pwynt cyfeirio arall.

Pa mor effeithiol yw defnydd y darparwr o safoni, gwirio neu arholi allanol i sicrhau safonau academiaidd?

1.9 Mae'r Coleg yn defnyddio arholwyr allanol a phrosesau gwirio ac asesu'n effeithiol i sicrhau ei safonau academiaidd. Mae manylebau'r rhaglenni'n mapio canlyniadau dysgu yn erbyn dulliau asesu, strategaethau addysgu a'r cwricwlwm. Mae staff addysgu'r Coleg yn gyfrifol am osod asesiadau, ac am eu marcio a'u safoni'n fewnol. Mae'r Brifysgol yn penodi ac yn hyfforddi'r arholwyr allanol, ac yn cymryd y cyfrifoldeb amdanynt. Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli'n rhoi ystyriaeth lawn a gofalus i'r adroddiadau hyn sy'n rhan o'r broses flynyddol o adolygu a monitro.

1.10 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu.

1.11 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau academiaidd yn gyfatebol â rhai sefydliadau addysg uwch eraill ac yn gyson â'r lefelau a osodwyd yn y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ).

1.12 Y Bwrdd Arholwyr, a gadeirir gan Gyfarwyddwr y Coleg, ac a fynychir gan yr arholwr allanol, sy'n penderfynu a yw myfyrwyr yn gymwys i symud ymlaen i'r Brifysgol.

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd rhoi **hyder** yn y ffordd y mae **Coleg Rhyngwladol Bangor** yn rheoli ei gyfrifoldebau am safonau academiaidd, fel sydd wedi'u nodi yn ei drefniadau cytundebol gyda'i bartner academiaidd.

2 Ansawdd y cyfleoedd dysgu

Pa mor effeithiol yw'r darparwr o ran cyflawni ei gyfrifoldebau am reoli a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu?

2.1 Mae gan y Grŵp ddull strategol o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Prif nod y Coleg yw paratoi myfyrwyr rhyngwladol ar gyfer trosglwyddo'n llwyddiannus i mewn i astudiaethau addysg uwch yn y Brifysgol. Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli'n gyfrifol am fonitro ansawdd y cyfleoedd dysgu yn y Coleg ac mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli'n adrodd i'r Bwrdd Llywio.

2.2 Mae'r Coleg yn rhannu'r cyfrifoldeb am reoli a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu gyda'r Brifysgol. Mae'r Coleg yn gyfrifol am ddarparu'r cwricwlwm, cymorth i fyfyrwyr, gosod asesiadau, marcio a safoni gwaith y myfyrwyr, a rhoi adborth i'r myfyrwyr. Ar amser yr adolygiad, roedd y Coleg yn cyflogi dau aelod o staff rheoli academaidd llawn amser, sef Cyfarwyddwr y Coleg a Phennaeth yr Adran Saesneg. Mae'r tîm rheoli hwn yn goruchwyllo'r gwaith dyddiol o reoli'r cyfleoedd dysgu yn y Coleg. Un o elfennau allweddol y strategaeth ar gyfer gwelliant yw cynyddu'r uwch dîm rheoli wrth i nifer y myfyrwyr dyfu, a bydd yr aelodau'n derbyn cyfrifoldeb penodol sy'n gysylltiedig â chyfleoedd dysgu a gwelliant.

2.3 Mae rhaglenni'r Coleg wedi'u llunio a'u cymeradwyo mewn cydweithrediad â'r Brifysgol i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol i ddatblygu eu sgiliau iaith ac i ddatblygu eu sgiliau academaidd. Mae'r Coleg wedi llunio Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu sy'n hysbysu ei ddulliau o reoli a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae'r Coleg yn cydnabod y cyfleoedd a'r heriau sy'n codi wrth gefnogi myfyrwyr rhyngwladol o gefndiroedd amrywiol ac mae pwyslais ar gynefino'r myfyrwyr yn ddiwylliannol, ar ddysgu dosbarthiadau bach, ac ar asesiad ffurfiannol i annog y myfyrwyr i gyd i gyfranogi'n weithredol.

Pa mor effeithiol yw defnydd y darparwr o bwyntiau cyfeirio allanol i reoli a gwella'r cyfleoedd dysgu?

2.4 Mae'r Coleg yn defnyddio nifer o bwyntiau cyfeirio allanol ar gyfer rheoli a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau'r Brifysgol ar gyfer cynllunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni. Mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n cynnwys cyfraniad gan arbenigwyr pwnc allanol a staff y Brifysgol.

2.5 Mae'r unedau iaith Saesneg sy'n rhan o'r rhaglenni IYZ ac IIM yn cael eu mapio i'r CEFR er mwyn sicrhau bod yr asesiad o ganlyniadau dysgu'r unedau hyn yn galluogi i fyfyrwyr ddangos lefel eu gallu ieithyddol.

2.6 Mae arholwyr allanol a benodir ac a hyfforddir gan y Brifysgol yn craffu'r rhaglenni yma'n fanwl i sicrhau bod y safonau'n gymaradwy â disgwiliadau'r DU. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn derbyn ystyriaeth gan y Cyd-Fwrdd Rheoli ac maent yn hysbysu adroddiadau blynyddol ac archwiliadau ansawdd mewnol. Mae tiwtoriaid cyswllt, a benodir gan y Brifysgol, yn cysylltu â staff y Coleg i roi gwybodaeth a chynghor, ac maent yn cymryd rhan yng ngweithgareddau ymsefydlu'r myfyrwyr. Mae'r Coleg yn derbyn adroddiadau gan y tiwtoriaid cyswllt a'r arholwyr allanol sy'n cael eu defnyddio yn ystod y broses flynyddol o adolygu ei ddarpariaeth.

2.7 Mae Polisi Derbyn y Grŵp wedi'i fapio i Bennod 2 Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU ac mae'n ymrwymo'r Grŵp i ddarparu gwasanaeth derbyn myfyrwyr sy'n deg, yn effeithiol ac yn atebol. Mae'r cyfrifoldeb am dderbyniadau wedi'i ddisgrifio yn y llawlyfr. Y Grŵp sy'n bennaf gyfrifol am recriwtio myfyrwyr yn unol â meini prawf mynediad academaidd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, ac mae'n rheoli'r broses dderbyn o'r pwynt pan wneir y cais hyd at gyflwyniad y penderfyniad cychwynnol am briodoldeb yr ymgeisydd. Y Brifysgol yn y pendraw sy'n penderfynu a ddylid derbyn myfyrwyr i raglenni'r Coleg, ac sy'n rhoi'r Llythyrau Cadarnhau Derbyn i Astudio

(CDA). Mae'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau am dderbyniadau wedi'i esbonio ym Mholisi Derbyn y Grŵp. Cadarnhaodd y myfyrwyr hynny a gyfarfu â'r tîm adolygu eu bod wedi derbyn cefnogaeth effeithiol drwy'r broses dderbyn.

2.8 Mae'r Coleg yn dilyn trefnau'r Brifysgol ar gyfer Apeliadau Academaidd a Chwynion Myfyrwyr sydd ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu.

Pa mor effeithiol yw trefniadau'r darparwr i'w sicrhau ei hun fod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cael ei gynnal a'i wella?

2.9 Mae'r Cyd-Fwrdd Rheoli'n ystyried canlyniadau'r adroddiadau monitro, y byrddau asesu, adroddiadau'r cydlynedd cyswllt, ac adborth gan yr arholwyr allanol. Mae ansawdd yr addysgu'n eitem sefydlog ar yr agenda.

2.10 Mae'r Coleg yn gweithredu prosesau monitro ac adolygu blynyddol y Brifysgol ar gyfer yr holl gyrsgiau ac unedau. Llunnir cynlluniau i wella gyrsgiau ac unedau o ganlyniad i'r broses fonitro. Hysbysir hyn gan wybodaeth ystadegol ac adborth gan y myfyrwyr a'r staff. Yn ogystal â dilyn prosesau'r Brifysgol, mae Cyfarwyddwr y Coleg yn llunio adroddiad hunanwerthuso blynyddol i'r Cyd-Fwrdd Rheoli a'r Bwrdd Llywio. Cesglir adborth gan y myfyrwyr drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cynrychiolaeth gan y myfyrwyr ar y Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr, ffurflenni adborth ar lefel modiwl a rhaglen, ac adborth am drefnau cyn cyrraedd ac ymsefydlu.

2.11 Yn unol â'r Llawlyfr Gweithredu a Sicrhau Ansawdd, cafodd y Coleg Archwiliad Ansawdd Mewnol ym mis Rhagfyr 2017. Roedd ffocws ar ddatblygiad yn yr Archwiliad hwn a gwnaeth argymhellion yn ymwneud â gwaith partneriaeth rhwng y Coleg a'r Brifysgol ac ynglŷn â gwella profiad y myfyrwyr. Mae gofyn i'r Coleg ddarparu ymateb o fewn blwyddyn i'r Archwiliad, sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd i weithredu'r argymhellion hyn.

Pa mor effeithiol yw trefniadau'r darparwr ar gyfer datblygu ei staff mewn perthynas â chynnal a/neu wella ansawdd y cyfleoedd dysgu?

2.12 Mae'r Coleg yn ceisio recriwtio staff addysgu sy'n gallu dangos dealltwriaeth o, ac empathi gyda, myfyrwyr rhyngwladol. Yn y gofynion personol ar gyfer penodi tiwtoriaid, mae profiad o addysgu dramor a/neu brofiad blaenorol o addysgu myfyrwyr rhyngwladol yn y DU wedi'i nodi fel nodwedd hynod o fanteisiol. Cymeradwyir staff addysgu gan y Cydlynedd Cyswllt ar ran y Brifysgol a chânt ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol.

2.13 Mae'r staff yn derbyn sesiynau ymsefydlu pan gânt eu penodi, ac maent yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda Chyfarwyddwr y Coleg a Phennaeth yr Adran Saesneg i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth effeithiol i gynnal a gwella cyfleoedd dysgu. Gwneir gwerthusiad blynyddol o bob gweithiwr llawn amser ac mae pob tiwtor yn cael ei h/arsylwi'n addysgu gan gymheiriaid, Pennaeth yr Adran Saesneg a Chyfarwyddwr y Coleg.

2.14 Darperir hyfforddiant yn rheolaidd i'r staff ar ddechrau pob tymor, gyda sesiynau dilynol yn hwyrach yn y tymor. Mae'r Coleg yn gweithredu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus i'w staff, a chynllunnir y rhaglen hon i gynnal a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae'r Grŵp hefyd yn rhoi cefnogaeth i'r staff i ennill cymwysterau ychwanegol, ac anogir y staff i fynd i gynadleddau a gweithdai perthnasol. Gall staff y Coleg fynd i weithgareddau datblygiad staff y Brifysgol.

Pa mor effeithiol yw trefniadau'r darparwr i'w sicrhau ei hun fod ei fyfyrwyr yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn effeithiol?

2.15 Anfonir gwybodaeth cyn cyrraedd i'r myfyrwyr unwaith y maent wedi cael lle. Adolygir y deunyddiau hyn yn flynyddol gan y Rheolwr Gweinyddu, ar ôl derbyn adborth gan y myfyrwyr. Pan gyrhaeddant, mae'r myfyrwyr yn mynychu rhaglen ymsefydlu a chynefino'r Coleg sy'n

cynnwys cyfranogaeth gan y Brifysgol. Rhoddodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw sylwadau positif am y deunyddiau paratoadol a'r cyfnod ymsefydlu.

2.16 Mae'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen ar y myfyrwyr i'w chael yn y llawlyfr myfyrwyr. Mae'r llawlyfr yn cynnwys trosolwg o fodiwlau unigol sy'n esbonio eu canlyniadau dysgu, eu cynnwys a'u dulliau asesu. Mae canllawiau modiwlau'n cael eu paratoi a'u dosbarthu ar wahân.

2.17 Mae'n ofynnol bod myfyrwyr yn mynd i'r holl ddsbarthiadau. Mae'r tiwtoriaid yn cadw cofnodion o bresenoldeb ac mae'r Rheolwr Gweinyddu'n trosglwyddo manylion y rhain i daenlen wythnosol. Mae'r Coleg yn dilyn polisi presenoldeb cadarn ac eglur, gyda chyfres o ymyriadau os ceir absenoldebau hirion o ddsbarthiadau.

2.18 Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2017-18, cyflwynodd y Coleg system tiwtoriaid personol i ddarparu cyngor a chefnogaeth bersonol ac academaidd gyffredinol i fyfyrwyr yn unigol ac mewn grwpiau. Mae perfformiad y myfyrwyr yn cael ei fonitro ac mae'r Coleg wedi mabwysiadu mecanweithiau i ganfod a chefnogi myfyrwyr a allai fod dan risg. Mae modd i diwtoriaid pwnc dynnu sylw at broblemau drwy ddefnyddio'r broses Achos i Bryderu. Mae problemau'n cael eu canfod yn brydlon a cheir ymyriad cynnar.

2.19 Gan y Rheolwr Gweinyddu mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am gymorth myfyrwyr a chymorth lles, a'r rheolwr yma yw'r pwynt cysylltu cyntaf i unrhyw fyfyrwr sydd â phroblem. Mae gwasanaethau cymorth y Brifysgol ar gael i fyfyrwyr y Coleg hefyd. Yn y dyfodol, mae'r Coleg wedi'i ymrwmo i olrhain canlyniadau'r myfyrwyr wrth iddynt symud ymlaen drwy eu hastudiaethau yn y Brifysgol, ac mae hwn yn ddangosydd allweddol arall i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn cefnogaeth effeithiol i elwa o astudio ar lefel prifysgol.

2.20 Cesglir adborth gan y myfyrwyr drwy holiaduron adborth pan ddaw pob modiwl i ben. Sicreir adborth hefyd drwy gynrychiolwyr myfyrwyr a etholir o grwpiau tiwtora i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr. Bwriad y Coleg yw cael un cynrychiolydd o blith y myfyrwyr a fydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Cyd-Fwrdd Rheoli yn y dyfodol.

Pa mor effeithiol yw'r darparwr o ran sicrhau bod adnoddau dysgu'n hygyrch a bod digon ohonynt i alluogi ei fyfyrwyr i gyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir?

2.21 Mae'r Brifysgol yn darparu manau addysgu a gweinyddu i'r Coleg, a gall myfyrwyr y Coleg ddefnyddio holl wasanaethau'r Brifysgol, gan gynnwys adnoddau dysgu, cymorth lles, cymorth TG a chyfleusterau TG, sef yr un gwasanaethau â'r holl fyfyrwyr eraill sydd wedi'u cofrestru gyda'r Brifysgol.

2.22 Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw eu bod yn gallu gwneud defnydd llawn o'r adnoddau dysgu sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir.

<p>Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd rhoi hyder yn y ffordd y mae Coleg Rhyngwladol Bangor yn rheoli ac yn gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu.</p>
--

3 Yr wybodaeth

Pa mor effeithiol yw trefniadau'r darparwr i sicrhau bod yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy?

3.1 Mae'n ymrwymiad gan y Grŵp a'r Brifysgol i ddarparu gwybodaeth am y Coleg sy'n ddibynadwy, yn eglur ac yn hygyrch drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys drwy wefan gorfforaethol y Grŵp, tudalennau gwe'r Coleg a gynhelir ar wefan y Brifysgol, llyfryn blynyddol y Coleg, taflenni gwybodaeth, a thrwy sianelau cyfryngau cymdeithasol. Mae tudalennau gwe'r Coleg ar wefan y Brifysgol yn esbonio natur fewnosodedig y Coleg a'r bartneriaeth rhwng y Grŵp a'r Brifysgol. Mae tudalennau gwe'r Coleg a'i lyfryn yn cynnwys manylion llawn y broses dderbyn.

3.2 Mae'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir naill ai gan y Grŵp neu gan y Coleg sy'n cefnogi myfyrwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau, wedi'u rheoli drwy'r system rheoli cynnwys, sy'n gofyn mynd trwy broses wirio a chymeradwyo cyn i wybodaeth gael ei chyhoeddi neu fynd yn fyw. O fewn y Coleg, mae gan y Cyfarwyddwr y cyfrifoldeb am lofnodi fersiwn terfynol unrhyw ddeunyddiau perthnasol. Y Brifysgol sy'n cymeradwyo'r holl ddeunyddiau marchnata'n derfynol.

3.3 Mae'r Coleg yn darparu gwybodaeth cyn cyrraedd i ddarpar fyfyrwyr i'w helpu i gynllunio ar gyfer cyrraedd y Deyrnas Unedig a'r Coleg. Hysbysir yr ymgeiswyr i'r Coleg yr hyn y bydd angen iddynt ei gyflawni er mwyn cael parhau â'u hastudiaethau yn y Brifysgol, a rhoddir yr wybodaeth hon yn y llyfryn mewn print ac ar y wefan, a chaiff ei hailadrodd yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac ar y rhaglen. Cyflwynir llawlyfr myfyrwyr i'r myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ac mae hwn yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol a gwybodaeth sy'n benodol i'r rhaglen. Mae'r llawlyfr yn nodi'n glir bod myfyrwyr y Coleg yn aelodau cofrestredig llawn o'r Brifysgol. Mae'r canllawiau modiwlau'n dilyn templed safonol y Brifysgol ac yn darparu gwybodaeth fanwl am batrymau ac amserlenni darparu, ac am ddulliau asesu. Adolygir llawlyfrau myfyrwyr a chanllawiau modiwlau'n flynyddol i sicrhau bod eu cynnwys yn parhau'n gywir ac yn gyfredol. Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw bod yr wybodaeth a gânt, cyn cyrraedd ac yn ystod eu cyrsiau, yn gywir ac yn ddefnyddiol.

3.4 Mae'r Grŵp yn defnyddio asiantau tramor i farchnata ei raglenni ac mae ganddo fecanweithiau estynedig i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'w asiantau am ei raglenni a'i bartneriaid.

3.5 Mae'r myfyrwyr yn derbyn trawsgrifiad o'r credyd academaidd a gyflawnwyd ganddynt pan fyddent yn cwblhau eu rhaglen yn y Coleg. Nid yw'r fersiwn cyfredol o'r trawsgrifiad yn nodi lefel y rhaglen. Felly, byddai'n fuddiol i'r darparwr drafod gyda'r Brifysgol yr angen am nodi lefel y rhaglen yn glir ar y trawsgrifiad a gyflwynir i'r myfyrwyr.

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod modd **dibynnu** ar yr wybodaeth y mae **Coleg Rhyngwladol Bangor** yn ei chynhyrchu i'w gynulleidfaedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau a allai gael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan QAA: www.qaa.ac.uk/cy/rhestr-termau

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu QAA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu QAA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan QAA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

Coleg mewnosodedig

Colegau, sy'n gweithredu, yn aml yn rhan o rwydwaith, o fewn neu gerllaw campysau sefydliadau addysg uwch y DU, ac sydd, yn y lle cyntaf, yn darparu rhaglenni i baratoi myfyrwyr ar gyfer mynediad i addysg uwch.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaidd, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor QAA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chynabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnodi Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlyniad a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae QAA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol.

Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'.

Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academaidd. Mae QAA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel plattform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academaidd. Mae safonau academaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnodi Pwnc**.

Safonau academaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academaidd trothwy**.

QAA2219 - R10014 - Awst 18

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2018
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk